# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 02 Chwefror Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 14eg o Chwefror 2007 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, Loreen Lewis, Annette Price, Betsan Jones, Carwyn James, Keith Rees a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Delyth Richards, Peter Cowell a June Gunter.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 10fed O IONAWR 2007.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod cofnodion cyfarfod y 10fed o Ionawr 2007 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Cyfrifiadur Cymuned y Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Menna Roberts wrth y Cynghorwyr bod hi wedi derbyn cyfrifiadur Cymuned y Betws wrth Gynghorwr Peter Cowell oherwydd ei fod yn ymddiswyddo ar y 30ain o Ebrill 2007. Rhoddodd y Cynghorwr Anne Sizmur ddiolch i Gynghorwr Menna Roberts am y gwaith mae hi wedi gwneud ynglyn ar safle gwe Cymuned y Betws.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.2 Adolygiad o Gyfleusterau Hamdden.
Roedd y Cynghorwr Keith Rees am nodi nid yw ef yn cofio cael dim wrth Gynghorwr Peter Cowell ynglyn a Chyfleusterau Hamdden ym Metws.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.3 Awdurdod Heddlu Dyfed Powys - Cyfarfod Cyhoeddus.
Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur wedi diweddaru ynglyn ar Gyfarfod Cyhoeddus Awdurdod Heddlu Dyfed Powys a bu hi'n bresennol.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.4 Llif ar hyd Heol Maescware, Betws - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb wrth yr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sydd wedi dweud taw cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r broblem o ddraeniad ar yr heol.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.5 Llif ar hyd Heol Maescware, Betws - Cyngor Sir Caerfyrddin.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb wrth Gyngor Sir Caerfyrddin sydd yn dweud "nid yw draeniad dwr wyneb wrth Olwg y Mynydd yn gysylltiedig i mewn i'r system priffordd Heol Maescware."
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr bod dau swyddog o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi ymweld â'u ty yn ddiweddar, ac maen nhw wedi cadarnhau fod ganddi gyfiawnhad o'i achwynion ynglyn ar lif. Awgrymodd y Cynghorwr Keith Rees ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod copi o'r llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn

cael ei ddanfon ymlaen at y ddau swyddog roedd wedi ymweld yn ddiweddar gyda thy Cynghorwr Anne Sizmur i ofyn am eglurhad pan mae yna ddau sylw anghyson ynglyn ar lif ar hyd Heol Maescware. Fydd Cynghorwr Anne Sizmur yn rhoi manylion y ddau swyddog i'r Clerc.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at y ddau swyddog o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.6 Rhaglen Cerdded Etifeddiaeth.
Darllenodd y Clerc gohebiaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar wrth y Swyddog Hamdden Cefn Gwlad o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau fod "y cyfieithiad Cymraeg o'r gwaith celf am y Paneli Etifeddiaeth yn mynd i gael ei gwirio gan berson cymwysedig cyn bod y paneli yn cael ei chwblhau."
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i'r Cynghorwyr sut fin nhw am gael y byrddau e.e. ochr yn ochr, siâp 'v', cefn wrth gefn. Cytunwyd y Cynghorwyr ei bod nhw am i'r byrddau fod yn siâp 'v'.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.7 Ardal Picnic ar Fynydd y Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb dderbyniwyd yn ddiweddar wrth Swyddog Cynorthwywr Hamdden Cefn Gwlad o Gyngor Sir Caerfyrddin. A dywedwyd "ei bod nhw'n gwybod fod adrannau o'r ffens eisiau cael ei ailosod? Maen nhw'n ystyried ailosod y ffens i gyd, ond ni fydd hyn tan y flwyddyn ariannol nesaf." Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ymateb i'r llythyr hyn gan ddweud fod y Cynghorwyr yn pryderu am y ffens sy'n mynd amgylch yr ardal picnic ac mae eisiau hyn cael ei ailosod ar fater brys. Mae'r tymor ymwelwyr yn agosáu ac oherwydd bod yna cwympiad mawr le mae toriad yn y ffens mae'r Cynghorwyr yn teimlo fod hyn yn berygl iechyd a diogelwch. Cytunwyd y Cynghorwyr. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones for y Clerc yn ysgrifennu i ofyn a gall arwyddion cael ei sefydlu amgylch yr ardal picnic sy'n dweud 'ewch ach sbwriel adref pan chi'n ymadael'. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ymateb y llythyr a dderbyniwyd wrth y Swyddog Cynorthwywr Hamdden Cefn Gwlad o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.8 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw ohebiaeth wrth Mr Jones ynglyn â phenodi ymddiriedolwyr Newydd. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn unrhyw ohebiaeth wrth Mr Jones. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Cyngor Cymuned yn cael cyngor cyfreithiol ynglyn ar fater hyn. Cytunwyd y Cynghorwyr. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones i ddweud wrtho fod y Cyngor Cymuned yn cael cyngor cyfreithiol ynglyn â chofrestri'r tir yn enw'r Cyngor Cymuned. Hefyd hoffan nhw alw cyfarfod cyhoeddus yn y Gwanwyn lle fydd ymddiriedolwyr newydd yn gallu cael ei phenodi. Hoffan gael cydweithrediad Mr Jones ar y mater hwn a gobeithio bydd yn gallu rhoi ei barn ymlaen i breswylwyr y Betws yn y Cyfarfod Cyhoeddus.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc a Chynghorwr Menna Roberts yn edrych mewn i'r mater hon.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Ymgyrch i lanhau Sir Gaerfyrddin.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ffurflen ymgeisio am ymgyrch i lanhau Sir Gaerfyrddin am y flwyddyn hon. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Cyngor Cymuned yn ymgymryd â'r glanhau am y flwyddyn hon, fydd y manylion terfynol yn cael ei wneud yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Ebrill. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr fydd y manylion terfynol yn cael ei wneud yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Ebrill.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
1. Llywodraeth Cynulliad Cymru
•Arferion Benthyca Cynghorau Cymuned a Thref yn 2007/2008
•Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tan ac Achub 2005
•Byrddau Gwasanaethau Lleol/Cytundebau Gwasanaethau Lleol - Papur Ymgynghori
2. Cyngor Sir Caerfyrddin
•Cynllun gwelliant Hawliau Tramwy adroddiad asesiad - estyniad i gyfnod ymgynghoriad
•Cost am oleuo'r llwybrau - Blwyddyn Ariannol 2007/2008
3. Dechrau Cartref Dinefwr gwahoddiad i fynychu rhwydweithio/diwrnod dyrchafiad
4. G Butler Ymgynghoriaeth
5. Sylfaen Aren Cymru
6. Grwp Cynghorau Lleol Aman agenda a chofnodion.
7. Un Llais I Gymru - Y Llais - wahoddwyd I Gynghorwyr Menna Roberts a Anne Sizmur.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniatâd i'r cais canlynol:-
E/15371 - Estyniad Sengl at 39 Heol Y Betws, (29)
E/15219 - Estyniad Sengl at 59 Heol Y Cyrnol, Betws (28)

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r ceisiadau canlynol:-
E/15022 - Estyniad Sengl at 14 Stryd y Reis, Betws (26)
E/14471 - Dau dy ger tir cyfagos i 74 Heol Maescware, Betws (16)
E/14773 - Estyniad dau lawr yn 2 Heol Waun-gron, Betws (22)
E/14774 - Estyniad i fatri gwreiddiol yn Prostone Prin, Gweithdy Parc Betws, Stryd Y Park Street, Betws (21)
E/14622 - Estyniad yn cynnwys bar newydd i'r cefn o Dy Coch, Heol Maescware, Betws (18)

4.3 Mae'r cais canlynol wedi cael ei encilgar ynglyn â chyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar yr 8fed o Chwefror 2007:-
E/14770 - Adeilad Cyflogaeth yn Waith Glo Betws, Rhydaman (23)

4.4 Mae apêl wedi cael eu danfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn penderfyniad a wnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin i wrthod rhoi caniatâd cynllunio i'r canlynol:-
E/14134 - Newid arfaethedig i ddefnydd tir i iard beirianneg sifil, ger Gweithdy Peirianneg Aman, Heol Pentwyn, Betws (14)

5. CYFRIFON.
1.Cymdeithas Ymwelwyr Sir Caerfyrddin £40.00
2.Clwb Criced y Betws (ariannu cyfatebol) £260.00
CYFANSWM £300.00
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones ac Arolygwr Cymunedol Tony Ward y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd PC Kevin Jones fod yna 2 trosedd ymosodiad wedi'u gwneud yn ardal y Betws ym mis Ionawr ac mae'r ddau berson sydd yn ymglymedig wedi cael ei gwefredig.

Hefyd adroddodd PC Kevin Jones ei fod wedi trefnu cyfarfod ar y 27ain o fis Mawrth gyda Mr McAvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r cylchfan/ croesfan ar Heol Ffowndri, Rhydaman. Mae PC Kevin Jones yn mynd i ofyn i'r swyddog o Gyngor Sir Caerfyrddin os gall yr arwyddion 30 m.y.a. cael ei symud i fyny ac o amgylch y cornel wrth Heol Maescware, fydd hyn hefyd yn gwneud cyflymder terfyn ar Heol Argoed yn 30 m.y.a.

Adroddodd PC Jones ynglyn â gyrwyr loriau yn defnyddio ei ffon symudol tra'u bod nhw'n gyrru mae hyn yn broblem gyda modurwyr i gyd. Ar ddiwedd y mis hwn fydd yn drosedd i

ddefnyddion ffon symudol tra'u bod nhw'n gyrru. Fydd modurwyr yn cael ei dirwyon o £60 a hefyd cael 3 pwynt cosb ar eu trwyddedu.

Adroddodd y Cynghorwr Annette Price fod plant rhwng oedran 10 a 13 yn reidio ei beics yn nos heb golau, ger Heol Ffowndri. Dywedodd PC Kevin Jones fydd yn edrych mewn i'r mater hyn.

Roedd y Cynghorwr Arnallt James yn pryderu gyda thraffig yn cyflymu ar hyd Heol Maescware. Dywedodd PC Jones fod y fan camera cyflymder wedi ei leoli ar hyd Heol Maescware ond yn anffodus nid oeddynt wedi dal unrhyw un yn cyflymu. Dywedodd PC Jones os yw'r Adran Priffordd o Gyngor Sir Caerfyrddin yn gallu lleihau'r cyflymder ar Heol y Mynydd fydd hyn yn gallu ei chynorthwyo gyda lleihau cyflymder ar hyd Heol Maescware.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones ac Arolygwr Cymunedol Tony Ward am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Llif ym Metws - Dywedodd fod swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi bod allan ac wedi cytuno gwneud gwaith yn 4 allan o 5 safle.
2. Cais Cynllunio Twrban Gwynt - Adroddodd fod yna bosibilrwydd fydd y cais cynllunio am y Twrban Gwynt yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ar y 22ain o Chwefror. Dywedodd os yw'r Pwyllgor Cynllunio yn mynd i roi caniataid i'r cais, delai'r Cyngor Cymuned ystyried ceisio gofyn am Gytundeb Adran 106.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i'r Cynghorwr Sir John D Evans am ei adroddiad.

8. DOSBARTHU TAFLENNI/TAFLEN NEWYDDION.
Dywedodd y Cynghorwr Menna Roberts wrth y Cynghorwyr efallai gall y Cyngor Cymuned cael ariannu hyd at £5000 tuag at daflen newyddion, fydd y broses hon cymryd tua 3 mis. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cyngor Cymuned yn talu am brintio'r taflennu oherwydd mae'r Cyngor Cymuned am ddosbarthu'r taflennu mis nesaf i breswylwyr. Fydd y Cyngor Cymuned yn gallu gwneud cais am y grant pan fu prosiect Parc Betws wedi cael ei chwblhau. Cytunwyd y Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James nodi pris am brintio 1200 taflennu. Hefyd cytunwyd y Cynghorwyr gynnal Cyfarfod Arbennig i drafod y wybodaeth a fu'n cael ei rhoi ar y daflen.
PENDERFYNWYD: bod y Cyngor Cymuned yn dosbarthu taflen newyddion i drigolion y Betws yn ystod mis nesaf.

9. ADRODDIADAU.
9.1 Cymhorthfa'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr bod y Cynghorwr Carwyn James, y Cynghorwr Arnallt James a hi wedi bod yn bresennol yng Nghymhorthfa'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd cyn Cyfarfod mis Chwefror y Cyngor Cymuned ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol yn y Gymhorthfa.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones ac eiliwyd y Cynghorwr Annette Price fod cymhorthfa'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar sail bob yn ail fis. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod hyn yn cael ei monitor yn agos. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod cymhorthfa'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar sail bob yn ail fis.

9.2 Grwp Cynghorau Lleol Aman.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi bod yn bresennol yn Cyfarfod Grwp Cynghorau Lleol Aman. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau eu bod nhw'n mynd i gefnogi'r Eisteddfod yn Ddyffryn Aman yn 2012. Mae rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Bwyllgor Eisteddfod cydnabod hyn yn iawn.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.3 Prosiect Parc Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price wedi diweddaru ynglin a chynnydd hyd yn hyn gyda phrosiect Parc Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Cyngor Cymuned yn cynnal diwrnod agored or Parc yn fis Mehefin, lle gall y canlynol cael ei gwahodd:-
Band Arian Rhydaman
Wal ddringo
Castell neidio
Frigâd Dan
Roedd y Cynghorwyr yn ffafrio hyn. Roedd y Cynghorwyr wedi rhoi'r dyddiadau canlynol fel dyddiadau posibl ar gael:- 16eg, 23ain a'r 30ain o Fehefin.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Annette Price yn gwneud ymholiadau i weld pa ddyddiad sy'n addas.

10. UNRHYW FATER ARALL.
Dywedodd y Cynghorwr Keith Rees fod y ffens sy'n mynd amgylch y lle chwarae ar Heol y Felin (cyferbyn a 30 Heol y Cyrnol, Betws) wedi cael ei difrodi. Awgrymodd fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin i holi a all y goedwig sydd o gwmpas y ffens gallu cael ei dorri yn nol a hefyd i ofyn a gall y ffens cael ei atgyweiried.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9:20 yp